

# MAKE YOUR VOICE COUNT

National Members' Council Elections
**Cymru**

OWNED BY YOU.
RIGHT BY YOU.

# Cyngor Cenedlaethol yr Aelodau Croeso gan yr Is-lywydd



## Annwyl aelod-berchnogion,

Mae'n wych bod gennych ddiddordeb mewn gwneud i'ch llais gyfrif drwy ddewis eich arweinwyr.

Yn 2024, parhaodd Co-op i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf: ein haelodau a'r gwerth y byddwn yn ei greu ar eich cyfer chi.

Mae pob un o aelodau Co-op yn berchen ar ran o'n Co-op, ac rydym yn bodoli er mwyn diwallu anghenion ein haelod-berchnogion a'u cymunedau, nid ychydig bobl gyfoethog.

Rydyn ni'n wahanol.

Mae llawer ohonoch wedi bod gyda ni ers tro bellach, ac ni allaf ddiolch digon i chi am eich ffyddlondeb a'ch ymrwymiad parhaus i'n Co-op.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i groesawu pawb a ddaeth yn aelod-berchennog yn 2024; mae'n hyfryd eich cael chi gyda ni.

### Sut y gwnaeth Cyngor Cenedlaethol yr Aelodau weithio drosoch chi yn 2024

**Mae eich Cyngor yn cynnwys 100 o aelod-berchnogion o bob cefndir, gan gynnwys cydweithwyr a phobl o gwmnïau cydweithredol eraill. Rydym yn cyflawni rôl bwysig i hyrwyddo eich buddiannau, eich safbwyntiau a'ch anghenion. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud y canlynol:**

- Galw'n llwyddiannus am Brisiau Aelodau ar gynhyrchion iach ar ran ein haelod-berchnogion, gan arwain at brisiau is a chynigion arbennig ar 54 o eitemau ffrwythau a llysiau.
- Grymuso aelod-berchnogion o gwmnïau manwerthu cydweithredol i ymgyrchu'n llwyddiannus dros newid yn y gyfraith er mwyn gwneud trais yn erbyn gweithwyr siopau yn drosedd ar ei phen ei hun..
- Cynnig cymorth a her adeiladol i'n Bwrdd ac arweinwyr o bob maes busnes er mwyn sicrhau y caiff eich lleisiau chi eu clywed o ran y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir gennym a'r gwerth a gewch chi fel perchnogion eich Co-op.
- Parhau i hyrwyddo pwysigrwydd hybu ein gwahaniaeth democrataidd a sicrhau y caiff eich lleisiau chi eu clywed yn y ffordd y byddwn yn gwneud pethau. Arweiniodd hyn at gynnydd o 38% yn nifer y pleidleiswyr a chynnydd o fwy na miliwn yn nifer yr aelod-berchnogion sy'n gymwys i bleidleisio neu sefyll mewn etholiad.
- Ysbrydoli ein hymgyrch 'Owned By You. Right By You' er mwyn arddangos yr hyn sy'n wahanol amdanom i aelod-berchnogion y presennol a'r dyfodol.

## Cyfle i chi ddweud eich dweud

Nawr, drosodd i chi. A chithau'n un o aelod-berchnogion Co-op, gallwch gymryd rhan yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'n Hetholiadau mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Dewis pwy a fydd yn eich cynrychioli ar Gyngor Cenedlaethol yr Aelodau.
- Dewis dau Gyfarwyddwr a Enwebir gan yr Aelodau i'ch cynrychioli ar lefel uchaf ein Co-op.
- Pleidleisio ar gynigion a lywiwyd gan Aelodau'r Cyngor yn seiliedig ar safbwyntiau'r aelodau ynghylch yr hyn y gallem fynd i'r afael ag ef nesaf gyda'n gilydd.

Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer un o'n digwyddiadau lleol, lle y bydd Ysgogwyr Aelodau yn eich helpu i gymryd rhan yn ein trafodaethau yn nes at adref.

Ymunwch â ni i ddathlu pob rhan o waith Co-op a'n helpu i greu byd gwell a fydd â'r hyn sy'n bwysig i chi wrth ei wraidd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **co-operative.coop/agm**.

**Debbie Williams**

Is-lywydd Cyngor Cenedlaethol Aelodau Co-op



# Cynrychioli'r aelodau a'r cymunedau a wasanaethir gennym


Mae ein Co-op yn bodoli er mwyn diwallu anghenion ein haelodau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni gynrychioli'r aelodau a'r cymunedau a wasanaethir gennym, a bod yn gynrychiadol ohonynt. Fel cwmni cydweithredol, rydym yn ymrwymedig i amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Mae hynny'n cynnwys gwella amrywiaeth Cyngor Cenedlaethol yr Aelodau. Bob blwyddyn, byddwn yn helpu aelod-berchnogion Co-op o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar ein Cyngor i sefyll etholiad.


Hefyd, mae gan y Cyngor seddi wedi'u neilltuo ar gyfer aelod-berchnogion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn parhau i wella cynrychiolaeth o bob rhan o'n haelodaeth a'n cymunedau amrywiol. Gall unrhyw un o aelod-berchnogion Co-op wneud cais i fod yn Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor. Rydym yn croesawu'n arbennig enwebiadau gan aelod-berchnogion:


- Sydd o gefndir ethnig lleiafrifol
- Sydd o dan 30 oed
- Sydd ag anabledd
- Sy'n LHDTC+

Bydd Aelodau Cyfetholedig yn aros ar y Cyngor am hyd at ddwy flynedd. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i fod yn Aelod Cyfetholedig yn 2025 fydd 20 Mai. Ewch i **co-operative.coop/get-involved/councilelection** i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r siartiau cylch yn dangos cyfansoddiad Cyngor Cenedlaethol yr Aelodau fel yr oedd ym mis Mawrth 2025, wedi'i rannu yn ôl oedran, rhywedd ac ethnigrwydd.



# Sut i bleidleisio

Caiff Aelodau'r Cyngor eu hethol gan ddefnyddio math o system cynrychiolaeth gyfrannol o'r enw 'Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy'. Mae hyn yn golygu y byddwch yn bwrw eich pleidlais drwy osod yr ymgeiswyr yn nhrefn eich dewis, a hynny gan ddefnyddio rhifau yn hytrach na chroesau, felly: Ar ôl eich dewis cyntaf, gallwch fynegi cynifer neu gyn lleied o ddewisiadau eraill ag a fynnoch.

Er enghraifft:

- Rhowch '1' yn y blwch wrth ymyl yr ymgeisydd rydych chi fwyaf awyddus i'w weld yn cael ei ethol
- Rhowch '2' wrth ymyl eich ail ddewis
- Rhowch '3' wrth ymyl eich trydydd dewis, ac yn y blaen

Daw'r cyfnod pleidleisio i ben am hanner dydd, **ddydd Llun 12 Mai**. Yn ogystal â phleidleisio drwy'r post, gallwch hefyd bleidleisio::

- Ar-lein (bydd angen eich codau diogelwch unigryw o'ch llythyr)
- Drwy'r tab 'Discover' yn ap Co-op (bydd eich codau diogelwch unigryw eisoes wedi'u hychwanegu)

Os na fyddwch wedi cael eich gwybodaeth bleidleisio erbyn diwedd mis Ebrill, cysylltwch â ni yn **AGM@coop.co.uk**.



# Eich Ymgeiswyr yn 2025

Bydd yr Aelodau o'r Cyngor a gaiff eu hethol gennych chi yn llais i'ch safbwyntiau a'ch anghenion. Byddant yn ein helpu i sicrhau bod ein strategaethau busnes, ein cynlluniau a'n hymgyrchoedd yn foesegol, yn gynaliadwy, ac yn canolbwyntio ar wneud y peth cywir er mwyn sicrhau gwerth pob dydd gwirioneddol i aelodau.

Mae 100 o seddi ar Gyngor Cenedlaethol yr Aelodau. Rydych chi'n byw yn **etholaeth Cymru**, lle y bydd 1 sedd ar gael yn 2025, a lle y bydd **6** ymgeisydd yn sefyll.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys datganiadau byr gan bob un o'r ymgeiswyr, wedi'u trefnu ar hap. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich 6 ymgeisydd yn eu datganiadau hwy sydd i'w gweld yn **co-operative.coop/agm**.

*Mae'r ymgeiswyr wedi'u gosod yn nhrefn yr wyddor*



**Henrietta Davies-Dunn**

Tudalen 8



**Vic Gregory**

Tudalen 9



**Kerry Mannion**

Tudalen 8



**Mark Narusberg**

Tudalen 9



**Zoe Selby**

Tudalen 7



**Robert Jack Sterriker Ellis**

Tudalen 7



## Zoe Selby

### Busnesau Grŵp Co-op y masnachwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Bwyd

### Sgiliau a phrofiad

Gydag 16 mlynedd o brofiad fel aelod-gydweithiwr, rwyf wedi dringo o fod yn aelod o'r Tîm Cwsmeriaid i gyflawni rôl Rheolwr siopau bwyd ac rwyf bellach yn gweithio yn y gwasanaeth Funeralcare fel Cyfarwyddwr Angladdau ers dwy flynedd. Rwyf hefyd yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Sefydliad Co-op. Rwyf wrth fy modd yn sicrhau bod yr hyn y mae bod yn gwmni cydweithredol yn ei olygu wrth wraidd popeth a wnaf.



## Robert Jack Sterriker Ellis

### Busnesau Grŵp Co-op y masnachwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Bwyd

### Sgiliau a phrofiad

Rwyf wedi bod yn gweithio yn y Co-op ers bron i bedair blynedd, gan godi drwy'r rhengoedd yn fy siop fwyd leol, ac rwyf wedi gweithio mewn ambell un o'r siopau yn y cyffiniau. Rwyf hefyd yn gynghorydd yn fy ward leol ers rhai blynyddoedd, gan wella'r ardal yn raddol er budd pawb. Hoffwn gyfuno fy mhrofiad yn y ddau faes hyn a dod yn aelod disglair o Gyngor y Co-op.



## Kerry Mannion

### Busnesau Grŵp Co-op y masnachwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Bwyd

### Sgiliau a phrofiad

Rwy'n aelod o'r Co-op ers tro ac yn aelod o gwmnïau cydweithredol eraill llai hefyd. Rwy'n ymrwymedig i'r cysyniad o aelod-berchnogaeth. Mae gen i brofiad sylweddol o waith pwyllgor yn fy ngyrfa flaenorol fel pennaeth ysgol ac, a minnau bellach wedi ymddeol, rwy'n awyddus i ddefnyddio'r profiad hwn i helpu eraill. Hoffwn weld mwy o gynnyrch lleol a thymhorol mewn siopau – gan ddathlu gwaith ffermwyr lleol a thalu'n deg iddynt am eu gwaith..



## Henrietta Davies-Dunn

### Busnesau Grŵp Co-op y masnachwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Bwyd

### Sgiliau a phrofiad

Tan y llynedd, roeddwn wedi bod yn gweithio i Co-op ers dros bum mlynedd. Rwy'n awyddus i sicrhau bod cynhyrchion Co-op yn parhau i fod yn garedig tuag at anifeiliaid a'r amgylchedd, a'u bod yn dod o gadwyn gyflenwi foesegol.

Yn ogystal â sicrhau gwerth moesegol uwch, mae angen i'r Co-op barhau i gynnig gwerth am arian; mae hyn yn allweddol er mwyn cynyddu nifer y cwsmeriaid. Po fwyaf llwyddiannus y byddwn ni, y mwyaf y gallwn ei roi yn ôl i aelodau, y gymuned a'r prosiectau moesegol y byddwn yn eu hyrwyddo.



# Mark Narusberg

### Busnesau Grŵp Co-op y masnachwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Bwyd

### Sgiliau a phrofiad

Hoffwn weithio i wella cymunedau lleol, gan sicrhau bod y Co-op yn cynnig y gwerth gorau am arian i'r cyhoedd mewn ffordd deg a gonest, gan fod yn elfen ofalgar a chymdeithasol gyfrifol ar y stryd fawr ac yn ein cymunedau.

Gyda chefndir mewn partneriaethau addysg uwch ac fel cynghorydd cymuned a llywodraethwr ysgol, byddaf bob amser yn mynd yr ail filltir i weithio gyda'r Co-op er mwyn sicrhau ei fod yn lle y byddwch yn dewis siopa ynddo.



# Vic Gregory

### Busnesau Grŵp Co-op y masnachwyd â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf

Bwyd

### Sgiliau a phrofiad

Hoffwn gael fy ethol i Gyngor Aelodau Grŵp Co-op, gan fod gen i brofiad helaeth o weithio fel uwch-reolwr mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Rwy'n ymrwymedig i werthoedd y Co-op, ac rwy'n ceisio gwella profiadau cwsmeriaid lleol a chenedlaethol. Mae fy sgiliau cydweithio a chyfathrebu yn fy ngalluogi i gynrychioli buddiannau aelodau. Gan fy mod wedi ymddeol, gallaf neilltuo cryn dipyn o amser ac adnoddau i'r rôl hon. Edrychaf ymlaen at gyfrannu at lwyddiant ac uniondeb y Co-op gan sicrhau ar yr un pryd y caiff lleisiau'r aelodau eu gwerthfawrogi.



# THANKS FOR MAKING YOUR VOICE COUNT

Co-operative Group Limited, registered number 525R, registered in England/Wales, registered office: 1 Angel Square, Manchester, M60 0AG.

www.co-operative.coop